CYDAG CYMDEITHAS YSGOLION DROS ADDYSG GYMRAEG

# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 12-10 (p3) : 13 Mai 2010**

## Yr Agenda Trawsnewid: Materion o ddiddordeb i'r Pwyllgor

Mae hwn yn ymateb ar ran CYDAG sy'n ffocysu yn bennaf ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae dros 25% o ysgolion uwchradd Cymru yn aelodau o CYDAG. Felly, mae safbwynt CYDAG yn adlewyrchu persbectif cyfran nid ansylweddol o'r darparwyr. Hefyd, i bob pwrpas, mae CYDAG yn adlewyrchu'r mwyafrif llethol o'r darparwyr 14-19 cyn belled a bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y cwestiwn.

Felly, ystyria CYDAG bod ei barn yn teilyngu ystyriaeth ddilys gan y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr Agenda Trawsnewid a allai ddatblygu i effeithio addysg cyfrwng Cymraeg er gwell neu er gwaeth.

Mae'n amserol fod y Pwyllgor Menter a Dysgu yn ystyried y pwnc hwn yn ystod yr un cyfnod a gyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (StrACC) gan LlCC ar 20 Ebrill 2010.

Ceir cydnabyddiaeth uniongyrchol at sefyllfa heriol datblygu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn nwy o ddogfennau allweddol LlCC.

Yn y ddogfen Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2008 gwelir yn nhroed nodyn 9 ar dudalen 7 y datganiad canlynol: cydnabyddir bod rhai ardaloedd gwledig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg ymhell o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill yn wynebu problemau penodol. Yma, mae'n rhaid ystyried mater cost-effeithiolrwydd yn nhermau'r manteision cyffredinol i ddysgwyr.

Yn y ddogfen Trawsnewid - Y Siwrnai (LlCC  Tachwedd 2009) gwelir y canlynol ym mharagraff 60 ar dudalen 20: 'Disgwylir y bydd cynigion ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth yn cael eu llunio mewn modd a fydd yn gwella cwmpas ac ystod cyfloed cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr...', ac yna 'Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i ymagweddau trawsnewidiol neilltuol ac arferion gwaith effeithiol yn benodol ar gyfer partneriaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.'

Hyd yma, gydag eithriad sefydlu'r tri Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg (gweler isod), nid yw CYDAG o'r farn bod yr ymrwymiadau a geir yn y ddwy ddogfen a gyfeiriwyd atynt uchod wedi eu troi i gamau gweithredol gan uwch swyddogion LlCC. Seilir hyn ar natur ac ansawdd yr ymatebion a geir gan y swyddogion mewn digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan gynnwys rhai mor ddiweddar â gwanwyn 2010. Adlewyrchir y diffyg yn yr arweiniad a ddaeth o LlCC yn nifer o'r sylwadau a welir yn y dystiolaeth a nodir yng ngweddill y datganiad hwn.

Mae'r bwriadau a'r ymrwymiadau yn ymddangos yn glir. Dal i aros ydym am weithredu'r bwriadau a'r ymrwymiadau hynny.

### Newidiadau Strwythurol

A. Cynnydd tuag at Bartneriaethau Dysgu ar draws gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru.

O holi aelodau CYDAG mae yna gynnydd tuag at Bartneriaethau Dysgu ar draws yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae yna amrywiaeth o ran cyflymder a natur y cynnydd hwnnw.

O ddiddordeb allweddol i CYDAG, ac, yng  ngoleuni cyhoeddi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, i LlCC hefyd, yw'r sylw neu ddiffyg sylw a gaiff addysg cyfrwng Cymraeg yn y trafodaethau hyn. Yn rhy aml, ymylol ar y gorau yw'r sylw a gaiff y Gymraeg mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys rhai ardaloedd traddodiadol dwyieithog. Hefyd, oherwydd eu sefyllfa ynysig fel yr unig ddarparwr cyfrwng Cymraeg o fewn Awdurdod, teimla rhai ysgolion wasgedd arnynt i gyfaddawdu eu polisi cyfrwng trwy gael eu gwthio i sefydlu cyrsiau dwyieithog (amrywiol o ran gwir le'r Gymraeg) neu hyd yn oed cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn annerbyniol. Gwna StrACC ddatganiadau clir am bwysigrwydd cynnal, amddiffyn ac, yn wir, cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg am mai hynny yw'r ffordd orau o ddatblygu sgiliau iaith dysgwyr. Mae yna bryderon sylweddol bod yr Agenda Trawsnewid mewn sawl man yn tanseilio yn hytrach nac yn diogelu a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

B. Cynnydd tuag at Bartneriaethau Dysgu ar draws gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Daeth strwythur tri Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog i fodolaeth erbyn Rhagfyr 2009. Ffurfiwyd Fforwm Gogledd Cymru ers haf 2008. Ni ffurfiwyd Fforwm De-ddwyrain Cymru a Fforwm Canolbarth a De-orllewin tan Ragfyr 2009.

Rôl y tri Fforwm yw hybu cydweithio ar draws ffiniau'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 o fewn eu dalgylchoedd unigol i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy greu cyrsiau galwedigaethol, newydd ôl-16 ar draws ffiniau'r Rhwydweithiau Dysgu

Er bod dau o'r tri Fforwm yn ifanc iawn, yr argraff gadarn yw bod yna rôl i'r tri Fforwm i sicrhau ehangu ar y ddarpariaeth o fewn y tri Fforwm a hefyd trwy ddatblygu cysylltiadau a phrosesau cydweithio ar eu traws. Mae yna hefyd fodd i ddatblygu cyfleoedd i gydweithio, i leihau dyblygu wrth baratoi adnoddau, i rannu arfer dda, i hybu dulliau newydd o gydweithio (e.e. e-ddysgu) ac ati.

A. Faint o ymgynghori sydd yna gydag ysgolion a cholegau?

Yn ôl ymatebion yr aelodaeth amrywiol yw  hyn ar lefel gyffredinol. Amrywia hefyd o ran ymgynghori ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn wir, mewn ambell achos a gafodd sylw amlwg yn y wasg a'r cyfryngau ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghori o gwbl er bod bwriadau Awdurdod Lleol yn radical ac, yn nhyb CYDAG, yn fygythiad anferthol i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg pe mabwysiadwyd y bwriadau hynny. Mae natur ac ansawdd ymgynghori o'r fath yn hollol anfoddhaol ac yn annerbyniol. Yn wir, mae sut yr aed ati i Drawsnewid y ddarpariaeth yn y  modd hwn yn torri egwyddorion sylfaenol StrACC LlCC ei hunan o ran yr egwyddorion ac o ran cyflawni amcanion 5 a 10 mlynedd y strategaeth honno.

Mewn rhai ardaloedd mynega cyrff llywodraethu anfodlonrwydd am fod y llinellau amser ar gyfer yr ymgynghori lleol a chyflwyno cynlluniau i'r Cynulliad yn rhy fyr. Yn aml caiff llywodraethwyr, gan gynnwys y rhai cydwybodol a gweithgar, anhawster i lawn sylweddoli'r oblygiadau oherwydd y gwasgedd amser.

B. Faint o ymgynghori sydd yna gydag ysgolion a cholegau?

Trafodwyd y Fforymau hyn gydag ysgolion a oedd yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn  ddwyieithog. Erbyn hyn, mae'r rhelyw o Golegau Addysg Bellach hefyd wedi'u gwahodd. Mae camau hefyd ar y gweill i sicrhau bod pob darparwr hyfforddiant hefyd i'w cynnwys yn y Fforymau hyn (eisoes yn aelodau o fforwm Gogledd Cymru).

Materion penodol a brofir o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae yn rhwystredigaethau mawr gan CYDAG a'u holl aelodau am y diffyg sylw gwirioneddol a gafodd sicrhau hawliau dysgwyr i addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyhoeddwyd dwy ddogfen allweddol gan APADGOS, sef y ddogfen wreiddiol ar yr agenda Trawsnewid (y 'Ddogfen Terracota' fel y'i gelwir) ac yna Y Siwrnai. Yn y ddwy ddogfen ceir cyfeiriadau penodol i'r angen am ystyriaeth ofalus i'r ddarpariaeth Gymraeg gan led awgrymu y galli fod angen ystyriaeth wahanol a gwahaniaethol er mwy n sicrhau'r ddarpariaeth. Heb law am y paragraffau a'r cyfeiriadau arwahanol hynny (sef, yn llythrennol, paragraff neu ddau allan o'r dogfennau cyfan), ni welwyd unrhyw fanylu pellach am ffordd o wireddu'r bwriadau hyn.

Holwyd y swyddogion APADGOS, gan gynnwys rhai o'r prif swyddogion sy'n gyfrifol am yr Agenda Trawsnewid, i roi cig ar yr esgyrn moel hynny mewn sawl cynhadledd ranbarthol ac mewn gohebiaeth a sylwadau. Er gwaethaf hynny, ni dderbyniwyd unrhyw oleuni pellach am sut y gwêl APADGOS y ffordd ymlaen i sicrhau hawlfraint dysgwyr i addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Digwyddodd enghraifft benodol arall o hyn mewn cynadleddau diweddar a gynhaliwyd gan APADGOS ar Lwybrau Dysgu 14-19. Cododd ysgol benodedig Gymraeg gwestiwn am yr her o gynnal grwpiau addysgu bychain ar gyfer, dweder, carfannau bach o ddysgwyr a oedd angen cyrsiau ar Lefel 1. Yr ateb a gafwyd oedd y byddai'n rhaid cydweithio gydag ysgolion cyfagos i greu grŵp hylaw. Doedd dim ystyriaeth o gwbl yn yr ymateb yna i'r egwyddor o gynnal y grŵp trwy gyfrwng y Gymraeg, sef beth oedd y dysgwyr a'u rhieni wedi'i ddewis yn y lle cyntaf.

Dyw'r atebion sy'n boddio anghenion ac yn weithredol bosib mewn sefyllfaoedd trefol cyfrwng Saesneg ddim yn ateb yr her o ran sicrhau hawlfraint i addysg cyfrwng Cymraeg mewn llawer iawn o ardaloedd yng Nghymru. Dylid nodi hefyd, bod heriau tebyg yn wynebu ysgolion, colegau a darparwyr eraill sy'n ceisio diwallu anghenion dysgwyr mewn ardaloedd gwledig Cymru, sef, talp daearyddol mawr iawn o holl arwynebedd y wlad.

Nododd nifer o aelodau eu bod eisoes wedi gweld potensial y tri Fforwm, er mae yn eu plentyndod megis y maent, yn anhepgorol yn enwedig lle mae argaeledd partneriaid lleol a all weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig.

Dyma rhai o'r heriau sy'n wynebu darparu profiadau cyfrwng Cymraeg:

mae'r partneriaid posib o ran darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig iawn

cynnal grwpiau bach

cynnal costau ffurfio grwpiau ar y cyd rhwng dau neu fwy o sefydliadau gan fod y costau trafnidiaeth yn rhai sylweddol

dod o hyd i bersonél sy'n medru darparu trwy gyfrwng y Gymraeg y enwedig wrth ymestyn y ddarpariaeth alwedigaethol ar Lefel 2 a fwy byth ar Lefel 3

hyd yn oed pan lwyddir i ddod o hyd i bersonél addas, gall y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddod i ben yn ddisymwth os bydd y person hwnnw yn gadael ei swydd am beth bynnag rheswm (symud i ardal arall, tostrwydd, beichiogrwydd ac ati) - hynny yw, mae rhywfaint o hap a damwain yn y system

gyda chyflwyniad a datblygiad wedd alwedigaethol y ddarpariaeth, cyfyngedig yw gallu cyfrwng fideo gynadledda i fod o gymorth i gynnal y ddarpariaeth angenrheidiol

parhau i gynhyrchu deunyddiau addysgu a dysgu i foddio'r ymestyniad yn y ddarpariaeth

sicrhau bod pob agwedd o'r asesu ac achredu ar gael tyn rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg

tra bod cyllid ar gael i ddatblygu cyrsiau newydd o fewn gofynion y Mesur, ni ellir defnyddio'r arian i gynnal y cyrsiau yn y tymor hir. Effaith hyn yw bod ysgolion yn sefydlu cwrs a'i redeg am flwyddyn neu ddwy, ac yna yn rhoi'r gorau i'r cwrs hwnnw (oherwydd diffyg

cyllid) cyn troi at gwrs newydd arall (sydd yn denu cyllid newydd).

### Effaith ar staff addysgu.

Er mwyn medru darparu rhai cyrsiau galwedigaethol newydd trwy gyfrwng y Gymraeg, mae nifer o ysgolion wedi ail-hyfforddi staff yn y meysydd hyn er mwyn gallu boddio dyheadau dysgwyr. Ceir ambell enghraifft prin lle mae coleg addysg bellach hefyd wedi hyfforddi staff neu ddefnyddio'r Cynllun Sabothol er mwyn galluogi staff i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi dweud hynny, mae gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau o ran cynyddu'r nifer o gyrsiau galwedigaethol yn ymestyn y gallu staffio i'r eithaf. Mewn nifer o ardaloedd nid yw'r staffio angenrheidiol ar gael i ddarparu'r nifer ac ystod o gyrsiau galwedigaethol sy'n statudol ofynnol. Bydd y gofynion yn anoddach fyth ar gyfer Medi 2011 pan ddaw'r gofynion statudol i rym ar gyfer cyrsiau lefel 3 ôl-16.

Oherwydd yr angen i drosglwyddo disgyblion i safleoedd eraill er mwyn cael at gyrsiau newydd, ceir sawl enghraifft lle y mae athro yn treulio amser yn teithio gyda'r disgyblion am mai ef/hi sy'n darparu'r cwrs ar y safle arall (sydd ag adnoddau angenrheidiol megis gweithdai hyfforddi ac ati). Mae hyn yn enghraifft arall ymhlith llawer o'r gost ychwanegol (o ran adnoddau staff, amser ac arian) sy'n gysylltiedig â gweithredu'r agenda 14-19.

Wedi dweud hynny, mae ymatebion arolygon dyheadau rhieni am addysg Gymraeg yn ardaloedd Casnewydd, Bro Morgannwg, Wrecsam a Fflint yn codi cwestiynau mwy fyth am argaeledd staff sy'n medru darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ystod oedran. Cwyd hyn hefyd y cwestiwn o ddigonolrwydd y nifer o ysgolion fydd ei angen i ddiwallu'r dyheadau hyn.

Mae sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn un o chwe Nod Strategol StrACC LlCC.

Hyfforddwyr a darlithwyr cyfrwng Cymraeg bwrsari ar gyfer meysydd lle mae yna brib

Oherwydd cymhlethdodau ac ansicrwydd gweithredu'r Agenda Trawsnewid nid yw staff ar lawr dosbarth/swyddfa ysgolion yn llawn (os nad prin) ymwybodol o natur a chyflymder y trafodaethau sydd ar droed mewn sawl Awdurdod Lleol. Teimla rhai aelodau fod yna diffyg amser o ansawdd difrifol i weithio trwy'r Agenda mewn ffordd ystyrlon a fydd yn caniatáu i bob aelod o'r gweithlu sylweddoli beth sy'n digwydd ac i gyfrannu i hynny. Fel y dwedodd un aelod, "Rwy'n rhagweld storm ar y gorwel."

### Uno Colegau Addysg Bellach:

'Does dim llawer gan CYDAG i'w fynegi parthed hyn heblaw am **ddatgan yn glir** bod angen i bob uniad rhoi ystyriaeth weithredol i gynllun datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y coleg 'newydd'. Dylai hynny gynnwys camau gweithredol yn erbyn llinellau amser diamwys o sut yr eir ati i sicrhau argaeledd cyrsiau a fydd yn sicrhau dilyniant a pharhad o ran medrusrwydd dysgwyr yn y Gymraeg (boed yn famiaith neu yn ail iaith) yn ogystal â sicrhau cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Unwaith eto, cyfeirir at hyn yn StrACC LlCC. Diddorol hefyd yw edrych ar Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd yn Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Golegau Cymru yn ddiweddar,.

### A ydy dyblygu darpariaeth a bylchau yn y ddarpariaeth yn lleihau?

Yn sicr mae yna ymdrechion dygn i gyflawni'r ddau nod yma.

Fodd bynnag, o ran sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a pheidio â chyfaddawdu polisïau ysgolion ac awdurdodau parthed hynny, ymddengys ar bapur fod dyblygu cyrsiau yn parhau. Ni chymera hynny i ystyriaeth yr anawsterau trefniadol (e.e. pellteroedd teithio) neu gostau ariannol (e.e. cost trafnidiaeth) a allai ddileu achosion o ddyblygu.

Cyfeiriwyd eisoes at yr her o lenwi bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ran argaeledd staff addysgu a hyfforddiant, adnoddau addysgu a dysgu, a sicrhau trefniadau asesu, cymedroli ac achredu mor rhwydd yn y Gymraeg ag yr ydynt trwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer pob dysgwr yn ddiwahân ac ymhob ardal yng Nghymru.

### Newidiadau o ran Dewisiadau

Cynnydd o ran y Llwybrau Dysgu 14-19.

Yn gyffredinol mae cynnydd wedi digwydd. Fel anodwyd eisoes ni fu hynny yn hawdd o gwbl ac fe deimlir sawl ysgol bod eu polisïau iaith o dan wasgedd am fod partneriaid a all ddarparu cyrsiau Cymraeg yn gyfyngedig iawn.

Profwyd llwyddiant y Fforymau Addysg Cyfrwng Cymraeg er eu bod megis yn eu plentyndod. Er enghraifft, ar gyfer Medi 2010 bwriedir cyflwyno 8 o gyrsiau cyfrwng Cymraeg galwedigaethol ôl-16 newydd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio rhwng ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant. Bydd y cyrsiau yn cael eu cynnig ar draws ffiniau Rhwydweithiau Dysgu 14-19 unigol gan gynnwys hyd at bedair rhwydwaith mewn rhai achosion.

Cred Hwyluswyr ac aelodau'r tri Fforwm bod yna botensial mawr i'r Fforymau fod yn gatalyddion i hybu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y tri Fforwm ac ar draws y Fforymau.

Nodwyd eisoes y pryder am beth a ddigwydd pan ddaw ariannu Llwybrau Dysgu i ben. Eisoes, fel y cyfeiriwyd ato eisoes, gwelwyd ysgolion yn rhoi'r gorau i gwrs ar ôl un neu ddwy flynedd gan gyflwyno cwrs newydd gan fod hwn yn denu ariannu o'r newydd.

Hefyd, cred CYDAG yn gryf iawn fod yr Agenda Trawsnewid a gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau yn mynd i gostio'n sylweddol os glynir

at yr egwyddor o gynnal, amddiffyn ac ymestyn y ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg - sef un o brif nodau StrACC LlCC.

A oes yna mwy o ddewisiadau galwedigaethol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11?

Yn ddi-os mae yna lawer mwy o ddewis ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9.

Mae yna rywfaint o gynnydd yn y dewisiadau a gynigir i ddisgyblion Blwyddyn 11. Deil y mwyafrif o ysgolion ac ardaloedd i weld her sylweddol o ran ehangu'r fwydlen alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er bod yna eithriadau i hynny mewn rhai ardaloedd.

O ffocysu ar y cynnydd o ran y fwydlen alwedigaethol ni ddylid diystyru tri pheth sy'n digwydd yn gydamserol.

Yn gyntaf, mae cyflwyno mwy o gyrsiau yn sgil ehangu'r fwydlen a boddio anghenion y Mesur Dysgu a Sgiliau yn anorfod yn arwain at faint gyfartalog llai. Hynny yw, mae'r costau uned yn cynyddu.

Yn ail, mae yn wahanol bynciau 'academaidd' mewn gwahanol ardaloedd yn cael eu gwasgu'n ddirfawr gan y twf yn y cyrsiau galwedigaethol. Mae hynny yn cyfyngu a lleihau'r dewis ar gyfer y dysgwyr sydd am ddilyn y cyrsiau hynny. Caiff ysgolion hi'n gynyddol anos i gynnal y pynciau hyn. Rhagwelir y bydd rhai o'r pynciau hyn yn anodd iawn, iawn eu cynnal yn yr hinsawdd ariannu sy'n cael ei ddarogan ar gyfer y 4 blynedd sydd o'n blaenau.

Yn drydydd, ac yn groes i'r paragraff blaenorol, mewn rhai ysgolion nid yw'r disgyblion yn cymryd at yr arlwy alwedigaethol er bod ysgolion wedi mynd i gryn drafferth i geisio adnabod y cyrsiau ar sail mynegiant y disgyblion a'r holl waith o sefydlu'r cyrsiau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n anodd cyfiawnhau'r ddewislen alwedigaethol er bod gofyn statudol i ysgolion i wneud hynny.

Yn bedwerydd, datganodd y Gweinidog o leiaf teirgwaith yn ei gyflwyniad i gynhadledd Llwybrau Dysgu a gynhaliwyd gan Sefydliad Materion Cymraeg yn y Cyd- bwyllgor Addysg Cymru ar 25 Mawrth eleni y gallai ehangu dewis arwain at orfod gwneud dewisiadau anodd yn lleol. Dyma gyfieithiad o ran o gyflwyniad y Gweinidog:

Mae gwell dewis i ddysgwyr weithiau yn golygu dewisiadau sefydliadol anodd i'r rhai sy'n cynnig y ddarpariaeth - sy'n cynnwys llawer ohonoch yn yr ystafell hon. Paradocs Dewis. Mae'n debygol y bydd rhaid i ni gulhau'r ystod o ddewisiadau academaidd os ydym i ehangu'r agenda galwedigaethol, cynnal Sgiliau Allweddol a chynnal pynciau strategol. Dyna beth yw paradocs dewis. Ac iaith blaenoriaethau.

Cwyd y datganiad hwn, a ail-adroddwyd deirgwaith yr angen am grisialu'r ystyr yn fwy manwl. Un dehongliad yw y dylai sefydliadau a rhwydweithiau o bosib ystyried os ydy'r fwydlen yn cynnwys pynciau 'academaidd' lleiafrifol neu gymharol 'diangen' ar draul cyflwyno a datblygu bwydlen alwedigaethol mewn meysydd prif lif sydd angen ar yr economi ac, felly, ar weithlu'r dyfodol. Ond dehongliad arall yw y gallai cyrsiau 'academaidd' prif lif creiddiol megis pynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol megis cerddoriaeth, celf, y dyniaethau ac ieithoedd modern, gael eu diddymu mewn gwahanol sefyllfaoedd lleol. Os mai'r ail ddehongliad oedd y tu cefn i sylwadau'r Gweinidog, cwyd hynny gwestiynau sylfaenol am statws rai pynciau o'r fath o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cwyd hefyd, gwerth y buddsoddiad addysgo ac ariannol yn y fath gyrsiau hyd 14 oed os nad oes dilyniant yn y cyfnod 14-19 oed.

Yn olaf, mynegodd llawer o ysgolion pryder am yr ansicrwydd sy'n bodoli'n ddiweddar o ran union ofynion y ddarpariaeth ôl-16 o Fedi 2011. Mae yna sibrydion yn y gwynt y bydd angen anelu am 10 cwrs 'academaidd', 10 cwrs 'galwedigaethol' a 10 'arall'. Mae hyn yn creu gwasgedd rheolaethol ar lefel sefydliadau, partneriaethau lleol ac awdurdod, rhwydweithiau a Fforymau.

A oes cwricwla lleol yn cael eu sefydlu/amserlennu ac effaith hynny ar staff addysgu a darlithwyr?

Ceir rhai enghreifftiau arloesol lle mae mwy nag un sefydliad wedi cyd-gyflogi aelodau o staff i foddio gofynion disgyblion mwy nag un sefydliad. Gwnaed hyn yn ffurfiol a gofalus gan gynnwys trafod y trefniant yn fanwl gydag ymgeiswyr am y swyddi hyn. Bu hyn yn ffactor arwyddocaol wrth ymestyn y fwydlen ddewisiadau yn gynyddol yn y sefydliadau hyn.

Ceir nifer o enghreifftiau lle ail-hyfforddwyd staff trwy ei arall gyfeirio o'u prif feysydd arbenigedd i feysydd newydd, yn aml yn feysydd galwedigaethol. Rhaid gwneud hyn yn ofalus a thrylwyr iawn er mwyn sicrhau buddiannau'r staff unigol a hefyd ansawdd y ddarpariaeth i'r dysgwyr. Mae yna gostau yng nghlwm â rhaglenni ail-hyfforddi o'r math yma.

Mewn rhai ardaloedd mae'r cwricwlwm lleol yn ei hanfod yn un cyfrwng Saesneg gan mai dim ond un ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli, neu fwy nag un ysgol ond yn bell oddi wrth ei gilydd. Nid yw disgyblion sydd am gael addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn medru cael mynediad i'r cwricwlwm lleol ehangach heb gyfaddawdu ar iaith yr addysgu/hyfforddi a dysgu. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn codi tensiynau ieithyddol mewn sawl man.

Gwelir ymgeiswyr i harmoneiddio amserlenni (neu rannau ohonynt) mewn ambell ardal - nid yw hyn yn dileu'r angen i staff neu ddysgwyr i deithio - gall yr amser hwn fod yn sylweddol gan ychwanegu neu ddwyn awr neu fwy allan o'r diwrnod ysgol.

Hefyd, gall amserlennu ar y cyd gan gynnal cyrsiau ar safle arall amharu ar ddilyniant a pharhad rhaglen ddysgu'r dysgwr yn ei leoliad 'cartref'. Mae hyn yn aml yn amharu ar y disgyblion sydd angen y mwyaf o gynhaliaeth a symbyliad.

A oes cynnydd yn y defnydd o addysgu digidol a pha effaith a gaiff hynny?

Mae yna gynnydd mewn addysgu digidol. Teg dweud, yn gyffredinol, mae dim ond camau cychwynnol a gymerwyd. Mae yna adnoddau ardderchog wedi'u cynhyrchu yn gydamserol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r sefydliadau sy'n eu defnyddio (ac wedi bod yn rhan o'u datblygiad) yn eu gweld fel caffaeledd pwysig i'r arlwy pedagogaidd.

Lle mae yna ddefnydd o addysgu digidol, dywed rhai aelodau mai mewn cyrsiau academaidd eu naws y gwelir ei effaith yn bennaf. Nid yw, hyd yma, o ddefnydd mawr, os o gwbl, yn yr union gyrsiau sydd angen eu hybu a'u rhannu sef y meysydd galwedigaethol.

Dywed ardaloedd eraill fod y darlun yn amrywio o ysgol i ysgol er, yn gyffredinol, nad oes cymaint â hynny o effaith wedi bod.

Mewn un ardal dyweder bod yna llawer mwy o siarad na gweithredu. Mynegwyd hefyd fod yna botensial i fynd i'r afael ag e-ddysgu trwy gyfrwng y Fforymau.

Defnyddiwyd offer fideo-gynadledda gan nifer o ysgolion i gyflwyno cyrsiau newydd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Defnyddir ystod o ddulliau cyflwyno gwahanol o wneud hyn a hefyd gweithdrefnau gwahanol o fonitro a sicrhau cynhaliaeth i'r dysgwyr. Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ran eu hansawdd a safon y deilliannau. Hefyd, yn ymarferol, profwyd heriau o ran integreiddio'r ddarpariaeth fideo-gynadledda o fewn trefniadau amserlennol sefydliadau - gan gynnwys amserlen y darparwr cyrsiau a'r sefydliad neu sefydliadau sy'n derbyn y ddarpariaeth.

A oes yna gynnydd yn y gynhaliaeth bersonol i ddisgyblion, megis Anogwr Dysgu

Yr ateb byr i'r cwestiwn yw 'Oes'. Mae yna gynnydd wedi digwydd o ran y gynhaliaeth bersonol a brofir gan ddisgyblion.

Wedi dweud hynny, yn gyffredinol, profodd ddisgyblion ysgolion CYDAG gynhaliaeth bersonol o ansawdd uchel ers blynyddoedd. Mae'r gofal bugeiliol a chyngor a chyfarwyddyd yn un o gwestiynau allweddol Estyn lle cafodd ysgolion raddau uchel yn gyson.

O ran effaith Llwybrau Dysgu 14-19, hyfforddwyd nifer o staff o wanhaol mathau i fod yn Anogwyr Dysgu. Ni phrofodd hynny i fod yn ddi-broblem. Amrywiodd ansawdd yr hyfforddiant yn sylweddol o le i le ac o un garfan i'r un nesaf. Yn ail, roedd llawer o ddiffyg eglurder am natur y rôl a'r disgwyliadau o ran sut i ddarparu'r gynhaliaeth o dan faner Llwybrau Dysgu a sut roedd (ac mae) hynny i eistedd ochr yn ochr â'r ddarpariaeth oedd yn bodoli eisoes.

Mynega llawer o ysgolion bryder am gost y gynhaliaeth trwy gyfrwng yr Anogwr Dysgu gan nad oes cyllid ar gael ar y swyddi ychwanegol sydd eu hangen mewn rhai sefydliadau.

A ydy disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ymdopi?

Ydynt, yn gyffredinol. Mewn rhai achosion gwelir bod profiadau a neilltuwyd i ddisgyblion gydag ADY wedi eu prif lifo.

Yn gyffredinol mae ysgolion wedi cymryd gofal yng nghyd-destun sicrhau hawl cyfle cyfartal pob disgybl i addysg gyflawn ac, ochr yn ochr â gweithredu'r agenda cynhwysiad, bod pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn cael mynediad i'r arlwy lawn.

Mae yna anfodlonrwydd o fewn aelodaeth CYDAG nad yw cyrsiau lefel 1 (na lefel 2 ôl-16) yn halio cydnabyddiaeth ariannol gan y gyfundrefn ganolog yng Nghaerdydd. Gall hyn lesteirio ar y ddarpariaeth ADY. Ym marn CYDAG mae hyn yn sarhad ar y disgyblion sydd ag ADY sydd angen y mathau yma o gyrsiau fel mater o hawlfraint ac o ran eu haddasrwydd i ddatblygu potensial y cyfryw ddisgyblion hyn.

Golygodd hyn gynllunio manwl gyda disgyblion a'u rhieni, amrywiol asiantaethau allanol, gan gynnwys partner ddarparwyr, ac ati i sicrhau:

gwneud dewisiadau addas i foddio anghenion y disgybl

y gynhaliaeth addysgol briodol ym mhob cyd-destun dysgu gan gynnwys gwneud defnydd da o gynorthwywyr dysgu

trefniadau trafnidiaeth addas

(os yn berthnasol) briffio'r darparwr allanol yn llawn am yr ADY ym mhob achos unigol

Cyflwynir y dystiolaeth hon ar ran aelodau CYDAG

**Eurig Davies**
**Cadeirydd Swyddog**

**Arwel George**
**Proffesiynol (rhan amser)**